
# Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd

## 2020/21 - 2028/29

**Adolygwyd 2024/25**

DRAFT



Gyda chefnogaeth cyflawni gan Bartneriaeth Tai Gwynedd:

Adra ClwydAlyn Grŵp Cynefin North Wales Housing Tai Gogledd Cymru

# CYNNWYS

Cyflwyniad - Aelod Cabinet a Phennaeth Tai ac Eiddo 4
Gair gan ein Partneriaid Tai 5

## 1. Sicrhau bod neb yn ddigartref yng Ngwynedd

1a Cynlluniau tai â chefnogaeth i'r digartref 6
1b Llety â chefnogaeth i ieuenctid digartref 7
1c Unedau hunan-gynhaliol ar gyfer unigolion ag anghenion cymdeithasol dwys 8
1ch Pecynnau cefnogaeth i landlordiaid preifat 9
1d Cefnogaeth iechyd meddwl arbenigol 10
1dd Llety a chefnogaeth ychwanegol yn Arfon 11

## 2. Cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gael tenantiaeth mewn tŷ fforddiadwy

2a Cefnogi'r Rhaglen Adeiladu Tai Cymdeithasol er mwyn uchafu nifer yr unedau a ddatblygir 12
2b Ail ddatblygu safle Cartref Pwyliaid, Penrhos 13
2c Cynllun Prynu i Osod 14

## 3. Helpu trigolion Gwynedd i fod yn berchen ar gartref yn eu cymuned

3a Tŷ Gwynedd - datblygu ein tai ein hunain 15
3c Cyfathrebu ac ymgysylltu gyda chymunedau er mwyn sefydlu eu hanghenion tai 16
3ch Gwrthod ceisiadau i godi amod person lleol ar gyn-"dai Cyngor" 17
3dd Cynlluniau tai gwag 18
3e Eithriad treth cyngor ar dai gwag i brynwyr tro cyntaf 19
3f Cynllun Prynu Cartref Gwynedd 20
3ff Prynu tir adeiladu ar gyfer y dyfodol 21
3g Cyfraniad at uned fforddiadwy mewn cynlluniau adfywio cymunedol 22

## 4. Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar


| | | |
|---|---|---|
| 4a | Gwasanaeth Cadwraeth Ynni newydd i berchnogion tai | 23 |
| 4b | Cynllun peilot Tai Arloesol | 24 |


## 5. Tai Gwynedd yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant trigolion y sir


| | | |
|---|---|---|
| 5a | Tai gyda chefnogaeth – plant ac ieuenctid | 25 |
| 5b | Tai gofal estynedig - henoed | 26 |
| 5ch | Tai gyda chefnogaeth - oedolion gydag anghenion dwys | 27 |
| 5d | Addasiadau i gartrefi plant gydag anghenion dwys | 28 |
| 5dd | Cartref Frondeg, Caernarfon | 29 |
| 5e | Benthyciadau di-log i wella cyflwr tai | 30 |
| 5f | Diogelwch yn y Cartref | 31 |
| 5ff | Addasiadau i wneud tai yn gartrefi addas i unigolion ag anableddau | 32 |
| 5g | Manddaliadau | 33 |


## 6. Siop un Stop i faterion tai

34

DRAFT

*Dôl Sadler, Dolgellau, rhan o gynllun 1a – Llety â Chefnogaeth*





# GAIR O GYFLWYNIAD



Mae cartref addas, fforddiadwy, ac o safon yn hawl sylfaenol i bob person, a dyna sydd wrth wraidd Cynllun Gweithredu Tai Gwynedd.

Gyda'r Cynllun bellach ar waith ers dros bedair blynedd, rydym yn falch o ddweud bod 7,764 o bobl Gwynedd wedi gweld effaith bositif y Cynllun ar eu sefyllfa dai, gyda'r ffigwr yn cynyddu bob dydd. Ond mae'r byd heddiw yn fyd go wahanol i 2020/21, ac felly mae'n amserol ein bod yn adolygu'r Cynllun yn ei gyfanrwydd er mwyn sicrhau ei fod yn dal i ateb y galw sydd o'n blaenau heddiw ac i'r dyfodol.

Wrth gwrs, mae pwrpas y Cynllun Gweithredu Tai yn parhau yr un fath - ein nod ydi sicrhau bod pobl leol yn gallu cael mynediad at dai addas, fforddiadwy ac o safon yn eu cymuned. Rydym yn parhau i wneud hynny mewn sawl ffordd wahanol, gan gynnwys prynu tai, prynu tiroedd, dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd, adeiladu tai newydd, a chynlluniau arloesol ac uchelgeisiol fel Prynu Cartref Gwynedd a chynlluniau lesu sector preifat.

Yn sgil yr adolygiad diweddaraf, mae'n destun balchder gennym nodi y bydd o leiaf 450 yn fwy o unedau yn cael eu cynhyrchu gyda buddsoddiad ychwanegol o £87m trwy ffynonellau yn cynnwys y Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi, ynghyd â grantiau megis y Grant Tai Cymdeithasol a'r Grant Cymorth Tai.

Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos gyda'n partneriaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac wrth gwrs y Cymdeithasau Tai sy'n weithredol yng Ngwynedd. Hoffem ddiolch yn fawr iddynt am eu cefnogaeth ar hyd y daith hon.

Rydym yn hyderus bod y Cynllun hwn yn cynnig nifer o ffyrdd o gefnogi'r rheiny sydd mewn angen tai yma yng Ngwynedd a byddwn yn parhau i ymateb yn rhagweithiol i'r sefyllfa dros y blynyddoedd i ddod.



**CYNG. PAUL ROWLINSON**
AELOD CABINET TAI AC EIDDO



**CARYS FÔN WILLIAMS**
PENNAETH TAI AC EIDDO

> "Ein nod ydi sicrhau bod **pobl leol** yn gallu cael mynediad at **dai addas, fforddiadwy,** ac o **safon** yn eu cymuned"

DRAFT

# GAIR GAN EIN PARTNERIAID TAI

## ADRA

Mae **Adra** yn darparu cartrefi o ansawdd a sicrhau bod cymunedau yn ffynnu yn flaenoriaethau pwysig i Adra.

Rydym yn gwarchod a hyrwyddo lles dros 16,000 o bobl yng Ngwynedd wrth reoli dros 6,500 o gartrefi ac wedi codi 400 o dai cymdeithasol a fforddiadwy o fewn y sir dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn bwriadu dwysau ein hymdrechion i gefnogi pobl a chymunedau Gwynedd, gan gydweithio'n agos efo'r Cyngor a phartneriaid eraill er mwyn cyflawni hyn.

## CLWYD ALYN

Mae gan **ClwydAlyn** 6500 o gartrefi ar draws gogledd Cymru, ac yn cyflogi 800 o staff gyda 95% ohonynt yn byw yn ein hardal. Ein nod yw "trechu tlodi" ac mae hyn yn gyrru popeth a wnawn, gan gynnwys ein gwaith i roi diwedd ar ddigartrefedd ac i wella iechyd a lles pobl gogledd Cymru; gan flaenoriaethu rhoi diwedd ar dlodi bwyd a thanwydd.

Rydym yn darparu cartrefi gofal a nyrsio cofrestredig, tai gofal ychwanegol a gwasanaethau i'r rheiny sy'n profi digartrefedd, camddefnyddio sylweddau a thrais domestig. Rydym hefyd yn darparu tai rhent a chymorth i brynu tai y mae galw mawr amdanynt.

Rydym yn awyddus i gydweithio gyda Chyngor Gwynedd i leihau digartrefedd a darparu mwy o gartrefi i boblogaeth leol yn ardal ogleddol y Sir.

## GRŴP CYNEFIN

Yn rheoli dros 4,000 o gartrefi ac yn cyflogi mwy na 330 o staff, gweledigaeth **Grŵp Cynefin** yw gwneud gwahaniaeth positif i fywydau a chymunedau.

Gydag ewyllys i ddarparu tai o safon sy'n ymateb yn uniongyrchol i anghenion y gymuned leol, mae partneriaeth agos a chynhyrchiol gyda Chyngor Gwynedd yn allweddol i Grŵp Cynefin. Yn barod, gwelwyd y berthynas dda yn dwyn ffrwyth. Enghreifftiau o'r rhain yw cydweithio ar Gynllun Peilot Dwyfor, ein datblygiadau yn Canol Cae, Penrhyndeudraeth a Harlech, ein cynlluniau ar gyfer Canolfan Lleu, Penygroes a Fron Deg, Caernarfon a rhaglen gyfalaf TACP

## TAI GOGLEDD CYMRU

Sefydlwyd **Tai Gogledd Cymru** yn 1974, ac rydym yn darparu cartrefi a gwasanaethau i dros 2,700 o aelwydydd ar draws gogledd Cymru. Rydym yn deall gwerth a phwysigrwydd cartref da. Mae datblygiad wrth wraidd gweledigaeth Tai Gogledd Cymru. Ond mae mwy i ni na hynny; rydym yn arwain y gad yn y farchnad ranbarthol mewn meysydd allweddol megis llety â chefnogaeth, darparu tai a gwasanaethau i bobl fregus gan gynnwys y digartref, pobl â phroblemau cyffuriau, alcohol a phroblemau iechyd meddwl.

Rydym yn falch o fod yn rhan o bartneriaeth gyda Chyngor Gwynedd, gan gydweithio ar ddatblygiadau tai cymdeithasol yn ogystal â phrosiectau llety â chefnogaeth sydd mor bwysig i helpu pobl fregus Gwynedd.

# 1a Cynlluniau tai â chefnogaeth i'r digartref

Cyfres o ddatblygiadau 'tai â chefnogaeth' er mwyn gallu cartrefu unigolion, cyplau a theuluoedd sy'n wynebu digartrefedd ac angen llety dros dro ar frys. Bydd hyn yn caniatáu osgoi lleoli pobl mewn llety anaddas (e.e. gwely a brecwast) ac yn galluogi i ni ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen i roi cymorth iddynt allu datblygu sgiliau byw'n annibynnol. Gall y gefnogaeth fod ar y safle neu yn symudol ei natur.

**Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**

**GWYNEDD GLYD:** Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad* |
|---|---|---|
| 83 | 83 | £17m |

*wedi'i dalgrynnu




## Ffynonellau ariannol

| CYNGOR GWYNEDD: | | YCHWANEGOL: | |
|---|---|---|---|
| Cynllun Rheoli Asedau | £0.5m | Llywodraeth Cymru | £2.95m |
| Cronfa Premiwm Treth Cyngor | £12.2m | Adra | £1.3m |
| **IS-GYFANSWM** | **£12.75m** | **IS-GYFANSWM** | **£4.25m** |

**CYFANSWM: £17m**

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Tai ac Eiddo · Llywodraeth Cymru Welsh Government · Adra · Grŵp Cynefin – Mwy na thai • More than housing · North Wales Housing – Tai Gogledd Cymru

SICRHAU BOD NEB YN DDIGARTREF YNG NGWYNEDD

DRAFT

# 1b Llety â chefnogaeth i ieuenctid digartref

Gyda chymorth grant adfywio gan Lywodraeth Cymru byddwn yn ail fodelu ac uwchraddio adeiladau hen fanc NatWest a GISDA yng Nghaernarfon i ddarparu 4 fflat i ieuenctid digartref (gan gynnwys un fflat hyfforddi i ieuenctid allu byw'n annibynnol), ail leoli ac ail ddatblygu'r caffi i greu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i'r digartref, creu cartref parhaol addas i swyddogion GISDA a chreu gofod ar gyfer cefnogaeth aml-asiantaeth i ieuenctid digartref.

**Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**

**GWYNEDD GLYD:** Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad* |
|---|---|---|
| 4 | 4 | £1.25m |

*wedi'i dalgrynnu




## Ffynonellau ariannol

| CYNGOR GWYNEDD: | | YCHWANEGOL: | |
|---|---|---|---|
| Cronfa Premiwm Treth Cyngor | £485k | Llywodraeth Cymru | £766k |

**CYFANSWM: £1.25m**

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Tai ac Eiddo

GISDA
DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

SICRHAU BOD NEB YN DDIGARTREF YNG NGWYNEDD

DRAFT


# 1c Unedau â chefnogaeth ar gyfer unigolion ag anghenion cymdeithasol dwys

Mae cartrefu rhai unigolion bregus sydd ag anghenion cymdeithasol ac ymddygiadol dwys yn heriol iawn ac o ganlyniad ar hyn o bryd rydym yn eu lleoli mewn llety gwely a brecwast anaddas. Maent yn derbyn cefnogaeth ddwys aml-asiantaeth ond mae angen cartrefi dros dro addas os ydynt am gael cyfle i baratoi i fod mewn sefyllfa lle gallant gynnal tenantiaeth ar eu liwt eu hunain.

**Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**

**GWYNEDD GLYD:** Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
| --- | --- | --- |
| 5 | 5 | £800k |




**Ffynonellau ariannol**

**CYNGOR GWYNEDD:**

Cronfa Premiwm Treth Cyngor £800k

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Tai ac Eiddo

SICRHAU BOD NEB YN DDIGARTREF YNG NGWYNEDD

DRAFT


# 1ch Pecynnau cefnogaeth i landlordiaid preifat gartrefu unigolion digartref

Mae ein gallu i gartrefu unigolion digartref yn ddibynnol ar gefnogaeth y Cymdeithasau Tai a landlordiaid preifat. Mae cynlluniau megis Cynllun Lesu Cymru yn ein galluogi i gynnig pecyn cefnogaeth i landlordiaid preifat i'w hannog i gynnig tenantiaeth i bobl leol sydd mewn angen am dai yn hytrach na'u gosod am gyfnodau tymor byr neu fel llety gwyliau. Bydd hyn yn rhoi hyder i denantiaid a sicrwydd i landlordiaid ynglŷn â chynnal y denantiaeth am gyfnod sefydlog.

**Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**

**GWYNEDD GLYD:** Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
|---|---|---|
| 140 | 331 | £3.3m |




**Ffynonellau ariannol**

| CYNGOR GWYNEDD: | | YCHWANEGOL: | |
|---|---|---|---|
| Cronfa Premiwm Treth Cyngor | £600k | Grant Llywodraeth Cymru | £2.7m |

**CYFANSWM: £3.3m**

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Tai ac Eiddo

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Gweithio gyda'n gilydd i roi cartref diogel i bawb

SICRHAU BOD NEB YN DDIGARTREF YNG NGWYNEDD

DRAFT

# 1d Cefnogaeth iechyd meddwl arbenigol

Mae cefnogi tenantiaid i barhau yn eu cartrefi yn rhan hanfodol o'n strategaeth i atal digartrefedd. Os na allwn atal digartrefedd yna byddwn angen cynyddu ymhellach ein hopsiynau llety dros dro a darparu mwy o lety â chefnogaeth, sydd yn gostus. Mae'r ganran o denantiaethau dan fygythiad oherwydd materion iechyd meddwl ar gynnydd yn flynyddol ac mae angen cynyddu'r arbenigedd o fewn y tîm i gynorthwyo'r unigolion bregus hyn i osgoi colli eu tenantiaeth.

**Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**

**GWYNEDD GLYD:** Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
|---|---|---|
| - | 200 | £730k |




**Ffynonellau ariannol**

| | |
|---|---|
| Grant Cymorth Tai | £730k |

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Tai ac Eiddo

SICRHAU BOD NEB YN DDIGARTREF YNG NGWYNEDD

DRAFT

# 1dd Llety â chefnogaeth ychwanegol yn Arfon

Er mwyn lleoli pobl Gwynedd mewn llety addas ar gyfer eu hanghenion, byddwn yn datblygu darpariaeth ychwanegol llety â chefnogaeth yn Arfon i gwrdd â'r angen uwch yn yr ardal. Bydd hyn yn galluogi i ni ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen ar yr unigolion megis rhoi cymorth iddynt allu datblygu sgiliau byw'n annibynnol.

**Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**

**GWYNEDD GLYD:** Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
|---|---|---|
| 6 | 6 | £818k |




**Ffynonellau ariannol**

| CYNGOR GWYNEDD: | | YCHWANEGOL: | |
|---|---|---|---|
| Cronfa Premiwm Treth Cyngor | £600k | Grant Llywodraeth Cymru | £218k |

**CYFANSWM: £818k**

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Tai ac Eiddo

SICRHAU BOD NEB YN DDIGARTREF YNG NGWYNEDD

DRAFT

# 2a Cefnogi'r Rhaglen Adeiladu Tai Cymdeithasol er mwyn uchafu nifer yr unedau a ddatblygir

Mae'r Rhaglen Adeiladu Tai Cymdeithasol a reolir gan Gyngor Gwynedd trwy Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn ddull hynod o bwysig yn ein hymdrechion i ddarparu cartrefi i bobl Gwynedd sydd mewn angen tai. Byddwn yn cefnogi'r Rhaglen trwy gynorthwyo ymhellach i uchafu'r nifer o dai fforddiadwy sy'n cael eu datblygu ar y cyd â'n Partneriaid Tai, gan ystyried sut gellir cefnogi achosion eithriadol ble mae rhwystrau wedi golygu bod y datblygiad yn oedi.

**Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**
**GWYNEDD GLYD:** Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad* |
|---|---|---|
| 700 | 2,500 | £57m |

*wedi'i dalgrynnu




## Ffynonellau ariannol

| CYNGOR GWYNEDD: | | YCHWANEGOL: | |
|---|---|---|---|
| Cronfa Premiwm Treth Cyngor | £1.2m | Grant Tai Cymdeithasol | £55.5m |

**CYFANSWM: £56.7m**

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

DRAFT

# 2b Ail ddatblygu safle Cartref Pwyliaid, Penrhos

Gweithio mewn partneriaeth gyda'r perchnogion (Cymdeithas Dai Clwyd Alyn) i sicrhau bod safle Cartref Pwyliaid Penrhos yn derbyn buddsoddiad sylweddol i ail ddatblygu'r 107 o unedau byw presennol yn gartrefi newydd o ansawdd uchel i drigolion lleol, yn ogystal â chartref nyrsio gyda 56 o wlâu. Byddwn yn cydweithio gyda'r gymuned leol er mwyn sicrhau fod yr hyn a gynigir ar y safle yn seiliedig ar yr angen yn lleol gan ganolbwyntio i gychwyn ar anghenion lletya gofal yn hytrach na thai cyffredinol.

**Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**
**GWYNEDD GLYD:** Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol

Nifer unedau
**107**

Nifer pobl fydd yn elwa
**176**

Buddsoddiad*
**£7.7m**
*wedi'i dalgrynnu*




## Ffynonellau ariannol

**LLYWODRAETH CYMRU**

| | |
|---|---|
| Grant Llywodraeth Cymru* | £7.7m |

*gwedd 1*

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Cyngor Gwynedd ClwydAlyn

# 2c Cynllun Prynu i Osod

Nod y Cynllun Prynu i Osod yw prynu tai oddi ar y farchnad agored (gan gynnwys cyn dai cymdeithasol), eu hatgyweirio a'u huwchraddio yn ôl yr angen er mwyn eu gosod ar rent fforddiadwy i drigolion lleol sydd mewn angen tai. Bydd pob pryniant yn ddarostyngedig i achos fusnes unigol er sicrhau fod y buddsoddiad yn cael ei ad-ennill o fewn 50 o flynyddoedd.

**Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**

**GWYNEDD GLYD:** Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad* |
|---|---|---|
| 100 | 300 | £26m |

*wedi'i dalgrynnu




## Ffynonellau ariannol

**CYNGOR GWYNEDD:**

| | |
|---|---|
| Cronfa Premiwm Treth Cyngor | £8.8m |

**YCHWANEGOL:**

| | |
|---|---|
| Benthyca | £13.7m |
| Grant Llywodraeth Cymru | £3.1m |

**CYFANSWM: £26.1m**

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Tai ac Eiddo

DRAFT

# 3a Tŷ Gwynedd - adeiladu ein tai ein hunain

Gwyddom mai un o'r prif heriau yn y maes tai yw anallu pobl leol i brynu/rhentu eu cartrefi eu hunain yng Ngwynedd oherwydd eu bod yn rhy ddrud. Byddwn yn datblygu ein tai ein hunain a fydd yn cynyddu'r stoc o dai yn y cymunedau hynny lle mae'r galw yn bodoli ar gyfer prynu neu rentu ar rent canolraddol. Byddwn yn ystyried model daliadaeth priodol er mwyn sicrhau fforddiadwyedd y tai e.e. rhannu ecwiti neu osod arwystl ar deitl yr eiddo. i ddecharu byddwn yn edrych i ddefnyddio safleoedd sydd yn ein perchnogaeth yn barod.

**Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**

**GWYNEDD GLYD:** Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
| --- | --- | --- |
| 90 | 330 | £11m |




**Ffynonellau ariannol**

**CYNGOR GWYNEDD:**

Cronfa Premiwm Treth Cyngor £11m

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Tai ac Eiddo

DRAFT

# 3c Cyfathrebu ac ymgysylltu gyda chymunedau er mwyn sefydlu eu anghenion tai

Er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb i anghenion pobl Gwynedd, byddwn yn rhannu negeseuon yn rheolaidd, ac yn cynnal ymarferiadau ymgysylltu yn ôl y galw gyda thrigolion a chymunedau. Ni fydd hyn yn ein hatal rhag gallu dechrau/parhau gyda chynlluniau sydd ar y rhaglen waith, ond bydd yn galluogi i ni ddal i fyny gyda'r galw a pharhau i gadw'r wybodaeth yma'n gyfredol er mwyn cefnogi ein hymdrechion yn y maes hwn.

**Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**

**GWYNEDD GLYD:**
- Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
|---|---|---|
| - | - | £150k |




**Ffynonellau ariannol**

**CYNGOR GWYNEDD:**

| | |
|---|---|
| Cronfa Premiwm Treth Cyngor | £150k |

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Tai ac Eiddo

DRAFT

# 3ch Gwrthod ceisiadau i godi amod person lleol ar gyn “dai Cyngor”

Mae amodau defnydd ar gyn-dai Cyngor a werthwyd dan y cynllun Hawl i Brynu yn nodi pa ddefnydd ceir ei wneud o’r eiddo hyn er mwyn eu gwarchod ar gyfer tai i bobl leol. Mae trefniadau cadarn yn eu lle i asesu ceisiadau er mwyn glynu at y nod yma, ac i gynyddu’r cyfleoedd i bobl leol gael mynediad at dai fforddiadwy. Byddwn yn herio unrhyw geisiadau i godi’r amod, a mynd ar ôl cam-ddefnydd o’r eiddo er mwyn glynu at y gwir fwriad, ac i sicrhau fod y tai hyn ar gael i bobl leol.

**Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**

**GWYNEDD GLYD:** Cynyddu’r cyflenwad o dai i bobl leol

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
|---|---|---|
| 75 | 75 | £0 |




Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Tai ac Eiddo

DRAFT

# 3dd Cynlluniau Cartrefi Gwag Gwynedd

Ymyraethau ar gyfer helpu trigolion Gwynedd i adnewyddu tai gweigion i safon byw derbyniol. Byddwn yn ymestyn y cynllun hwn sydd wedi helpu bron i 150 o brynwyr tro cyntaf dros y ddwy flynedd ddiwethaf i gynnwys prynwyr mewn sefyllfaoedd amrywiol (boed yn brynwyr tro cyntaf neu ddim), a hefyd i gynnwys tai gwag fu'n arfer bod yn ail gartrefi. Mae hyn yn ehangu'r cyfleoedd i ddod â thŷ gwag yn ôl i ddefnydd a chynyddu'r opsiynau i bobl leol fyw yn eu cymuned.

**Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**

**GWYNEDD GLYD:** Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad* |
|---|---|---|
| 282 | 400 | £5.6m |

*wedi'i dalgrynnu




## Ffynonellau ariannol

| CYNGOR GWYNEDD: | | YCHWANEGOL: | |
|---|---|---|---|
| Cronfa Premiwm Treth Cyngor | £4.78m | Grant Llywodraeth Cymru | £800k |

**CYFANSWM: £5.6m**

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Tai ac Eiddo

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

HELPU TRIGOLION GWYNEDD I FOD YN BERCHEN AR GARTREF YN EU CYMUNED

# 3e Eithriad Treth Cyngor ar dai gwag i brynwyr tro cyntaf

Ymestyn y cyfnod eithrio o dalu treth Cyngor ar dai gwag (prif neu unig gartref) gan roi blwyddyn ychwanegol i brynwyr tro cyntaf i gyflawni gwaith adfer hanfodol cyn y gellir meddiannu'r tŷ gan gynnwys achosion lle mae'r cyfnod eithriad wedi ei hawlio yn barod gan y cyn berchnogion.

**Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**

**GWYNEDD GLYD:** Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
|---|---|---|
| 120 | 120 | £200k |




**Ffynonellau ariannol**

**CYNGOR GWYNEDD:**

| | |
|---|---|
| Cronfa Premiwm Treth Cyngor | £200k |

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Tai ac Eiddo

DRAFT

# 3f Cynllun Prynu Cartref Gwynedd

Cynllun i gefnogi pobl leol i brynu eiddo ar y farchnad agored yn eu cymuned drwy bontio'r gwahaniaeth rhwng beth allent fforddio a phrisiau tai yr ardal. Bydd y cynllun ar gael i brynwyr tro cyntaf neu i rai sy'n methu fforddio i brynu tŷ sy'n cwrdd a'u anghenion. Gall benthyciadau amrywio o rhwng 10% a 50% o werth eiddo, yn ddibynnol ar amgylchiadau'r ymgeisydd. Bydd y Cyngor yn diogelu ei fuddsoddiad yn erbyn yr eiddo a brynir gan un ai ad-ennill yn nes ymlaen a'i ail fuddsoddi yn y tŷ nesaf, neu gadw elfen o'r berchnogaeth am byth.

**Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**

**GWYNEDD GLYD:** Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
|---|---|---|
| 120 | 425 | £11.5m |




**Ffynonellau ariannol**

| CYNGOR GWYNEDD: | | YCHWANEGOL: | |
|---|---|---|---|
| Cronfa Premiwm Treth Cyngor | £3m | Peilot Dwyfor/ Llywodraeth Cymru | £8.5m |

**CYFANSWM: £11.5m**

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Tai ac Eiddo · Llywodraeth Cymru Welsh Government · TAI TEG

DRAFT

# 3ff Prynu tir adeiladu ar gyfer y dyfodol

Mae gennym rai safleoedd gyda photensial datblygu eisoes yn ein perchnogaeth a fydd yn galluogi i ni weithredu cynlluniau mewn rhai ardaloedd lle mae'r angen gan drigolion lleol yn glir. Byddwn hefyd angen bod yn barod i ymateb yn gyflym i gyfleon i brynu tir adeiladu addas yn y lleoliadau cywir.

**Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**

**GWYNEDD GLYD:** Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
|---|---|---|
| - | - | £1.2m |




**Ffynonellau ariannol**

**CYNGOR GWYNEDD:**

| | |
|---|---|
| Cronfa Premiwm Treth Cyngor | £1.2m |

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Tai ac Eiddo



DRAFT

# 3g Cyfraniad at uned fforddiadwy mewn cynlluniau adfywio cymunedol

Cefnogi cynlluniau adfywio cymunedol sydd yn darparu unedau rhent canolraddol, drwy gynnig grantiau tuag at drosi adeiladau yn unedau byw fforddiadwy. Byddai hyn yn caniatáu mwy o bobl i aros o fewn eu cymunedau ac yn cefnogi datblygiadau lleol.

**Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**
**GWYNEDD GLYD:** Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
|---|---|---|
| 12 | 12 | £600k |




**Ffynonellau ariannol**

**CYNGOR GWYNEDD:**

Cronfa Premiwm Treth Cyngor £600k

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Tai ac Eiddo

DRAFT

# 4a Gwasanaeth Cadwraeth Ynni newydd i berchnogion tai

Gwasanaeth sy'n ymateb i'r llu o geisiadau a ddaw gan grwpiau cymunedol yn gofyn am help i wireddu cynlluniau ynni adnewyddol a gwella gallu trigolion Gwynedd i osgoi tlodi tanwydd. Ar hyn o bryd mae ein cymunedau yn colli cyfleon i wireddu cynlluniau oherwydd diffyg arbenigedd technegol a'r angen am gymorth i lunio achosion busnes. Bydd y gwasanaeth ar gael i gynghori, helpu gydag achosion busnes a cheisiadau grant a rhedeg prosiectau cadwraeth ynni. Byddwn yn cyfeirio'r ffioedd a delir gan ddefnyddwyr ein fframweithiau caffael ynni tuag at greu cronfa i weithredu yn y maes yma.

**Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:**

**GWYNEDD GLYD:** Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
|---|---|---|
| - | 4,000 | £500k |




**Ffynonellau ariannol**

**CYNGOR GWYNEDD:**

Cronfa Premiwm Treth Cyngor £500k

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

DRAFT

# 4b Cynllun peilot Tai Arloesol

4 'pod' i'r digartref o dechnoleg Passivhaus sy'n golygu y bydd y defnydd ynni yn eithriadol isel. Cynllun gan Wynedd sydd bellach yn cael ei ddefnyddio ledled y wlad.

Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:

**GWYNEDD GLYD:**
- Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
|---|---|---|
| 4 | 4 | £600k |




## Ffynonellau ariannol

| CYNGOR GWYNEDD: | | YCHWANEGOL: | |
|---|---|---|---|
| Cronfa Premiwm Treth Cyngor | £300k | Grant Llywodraeth Cymru | £300k |

**CYFANSWM: £600k**

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Tai ac Eiddo


Llun o un o'r podiau yng Nghaernarfon wedi'i adeiladu



DRAFT

# 5a Tai gyda chefnogaeth – plant ac ieuenctid

Fel rhan o'r cyfrifoldeb fel Rhiant Corfforaethol, mae diffyg presennol yn y nifer o gartrefi sydd ar gael i'w cynnig i blant ac ieuenctid sydd angen cefnogaeth. Byddwn yn darparu dau dŷ fydd yn addas ar gyfer cwrdd â'r gofyn yma yn sirol gan geisio eu haddasu yn 4 uned pwrpasol gyda chyfleusterau cefnogaeth yn ogystal.

Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:

**GWYNEDD GLYD:** Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol

**GWYNEDD OFALGAR:** Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
|---|---|---|
| 4 | 4 | £4.15m |




## Ffynonellau ariannol

| CYNGOR GWYNEDD: | | YCHWANEGOL: | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd | £1.4m | Grant Llywodraeth Cymru | £2.75m |

**CYFANSWM: £4.15m**

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

CYNGOR GWYNEDD

DRAFT

# 5b Tai gofal estynedig – henoed

Byddwn yn cydweithio i adnabod yr angen am dai Gofal Estynedig ar draws y sir, gan anelu i ddarparu hyd at 72 o unedau byw yn unol â'r angen fydd wedi'i adnabod.

Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:

| | |
|---|---|
| **GWYNEDD GLYD:** | Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol |
| **GWYNEDD OFALGAR:** | Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol |

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
|---|---|---|
| 72 | 72 | £30m |




**Ffynonellau ariannol**

| | |
|---|---|
| Ariannu preifat | £30m |

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Tai ac Eiddo

DRAFT

# 5ch Tai gyda chefnogaeth – oedolion gydag anghenion dwys



Ar hyn o bryd mae nifer o oedolion gydag anghenion dwys yn byw mewn lleoliadau anaddas ar draws y sir. Byddai modd i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gefnogi'r unigolion hyn yn well drwy brynu neu ddatblygu hyd at 10 o unedau ac ad-ennill y buddsoddiad drwy incwm rhent a budd-dal tai. Byddwn yn clustnodi adnodd ychwanegol ar gyfer cyfrannu tuag at gostau addasu'r tai ar gyfer gofynion y defnyddwyr.

<u>Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:</u>

| | |
|---|---|
| **GWYNEDD GLYD:** | Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol |
| **GWYNEDD OFALGAR:** | Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol |

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
|---|---|---|
| 10 | 10 | £500k |




**Ffynonellau ariannol**

**CYNGOR GWYNEDD:**

Cronfa Premiwm Treth Cyngor £500k

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Tai ac Eiddo

DRAFT

# 5d Addasiadau i gartrefi plant gydag anghenion dwys

Mewn rhai achosion mae galluogi i blentyn fyw gartref gyda chyfleusterau gofal arbenigol yn golygu fod angen cyflawni addasiadau sylweddol i'w tai. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i bob ateb allasai fod yn ymarferol ar gyfer trigolion Gwynedd mewn sefyllfaoedd fel hyn, boed hynny drwy ariannu addasiadau sylweddol, sicrhau mwy o ddarpariaeth arbenigol mewn datblygiadau newydd neu brynu/datblygu tai arbenigol ein hunain os fydd angen.

Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:

| | |
|---|---|
| **GWYNEDD GLYD:** | Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol |
| **GWYNEDD OFALGAR:** | Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol |

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
|---|---|---|
| 15 | 15 | £1.2m |




**Ffynonellau ariannol**

**CYNGOR GWYNEDD:**

| | |
|---|---|
| Cronfa Premiwm Treth Cyngor | £1.2m |

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Tai ac Eiddo

# 5dd Cartref Frondeg, Caernarfon

Darpariaeth newydd fodern ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu i ddisodli'r ddarpariaeth yn Nghartref Frondeg ar hyn o bryd, sydd yn anaddas ac yn dirwyn i ben ei oes. Bydd y rhan helaeth o'r cynllun yn cael ei ariannu gan incwm rhent.

Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:

| | |
|---|---|
| **GWYNEDD GLYD:** | Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol |
| **GWYNEDD OFALGAR:** | Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol |

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
|---|---|---|
| 20 | 20 | - |




Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Tai ac Eiddo

Grŵp Cynefin

DRAFT

# 5e Benthyciadau di log i wella cyflwr tai

Cronfa ailgylchu i alluogi rhoi benthyciadau ariannol i bobl leol ar incwm isel allu delio gyda materion cyflwr hanfodol er mwyn gallu parhau mewn meddiant o'u tai.

Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:

| | |
|---|---|
| **GWYNEDD GLYD:** | Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol |
| **GWYNEDD OFALGAR:** | Cefnogi Llesiant Pobl |

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
|---|---|---|
| - | 35 | £250k |




**Ffynonellau ariannol**

**CYNGOR GWYNEDD:**

Cronfa Premiwm Treth Cyngor £250k

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

# 5f Diogelwch yn y Cartref

Cyflawni mân waith addasu (gosod canllaw, rampiau bychan ayb) er mwyn gwneud cartrefi'n ddiogel i breswylwyr barhau i fyw yn annibynnol yn hirach. Byddwn yn anelu i helpu tua 800 o bobl yn flynyddol.

Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:

**GWYNEDD GLYD:** Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol

**GWYNEDD OFALGAR:** Cefnogi Llesiant Pobl

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
|---|---|---|
| - | 4,000 | £800k |




**Ffynonellau ariannol**

**CYNGOR GWYNEDD:**

| | |
|---|---|
| Cynllun Rheoli Asedau | £800k |

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

DRAFT

# 5ff Addasiadau i wneud tai yn gartrefi addas i unigolion ag anableddau



Cwrdd â chyfrifoldeb statudol y Cyngor i ymateb i geisiadau am gymorth i wneud amrywiol addasiadau i dai unigolion sydd ag anableddau er mwyn galluogi tua 180 o unigolion y flwyddyn barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi.

Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:

| | |
|---|---|
| **GWYNEDD GLYD:** | Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol |
| **GWYNEDD OFALGAR:** | Cefnogi Llesiant Pobl |

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
|---|---|---|
| - | 900 | £11.7m |




**Ffynonellau ariannol**

**CYNGOR GWYNEDD:**

| | |
|---|---|
| Cynllun Rheoli Asedau | £11.7m |

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Tai ac Eiddo

DRAFT

# 5g Stad Fanddaliadau'r Cyngor

Mae buddsoddi yn ein Stad Fanddaliadau yn hanfodol er gwarchod y Stad i'r dyfodol. Mae'r Stad ar hyn o bryd yn darparu cartrefi i 39 o deuluoedd, gan gynnig cyfleon gwaith a chyfoethogi cymunedau gwledig. Bydd y Cyngor yn cydweithio â thenantiaid y daliadau, gan fuddsoddi yn y cartrefi (lle bo angen), er mwyn uchafu safonau, a sicrhau hyfywdra'r stad i'r dyfodol.

Cysylltiad â maes blaenoriaeth Cynllun y Cyngor:

**GWYNEDD GLYD:** Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
|---|---|---|
| 39 | 117 | £2.1m |




**Ffynonellau ariannol**

**CYNGOR GWYNEDD:**

| | |
|---|---|
| Premiwm Treth Cyngor | £2.1m |

Cyflawnir y cynllun hwn gan:

Tai ac Eiddo

DRAFT

# 6 Siop un Stop i faterion tai

Darparu un fynedfa i drigolion Gwynedd gael cymorth arbenigol gyda'u gofynion Tai. Bydd hyn yn galluogi i unigolyn dderbyn cymorth ar gyfer ymholiadau tai mewn un lle yn hytrach na gorfod mynd i chwilio am gymorth at sawl adran wahanol o'r Cyngor neu at nifer o gyrff allanol.

| Nifer unedau | Nifer pobl fydd yn elwa | Buddsoddiad |
|---|---|---|
| - | 3,500 | £480k |




**Ffynonellau ariannol**

**CYNGOR GWYNEDD:**

| | |
|---|---|
| Cronfa Premiwm Treth Cyngor | £480k |

DRAFT

Cyflawnir y cynllun hwn gan: